# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 13 GORFFENNAF 2017 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd C E Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | D G Sullivan | W G Thomas |
| M Thomas | | |

**Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:**
P A Rees

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Ben Smith | Swyddog Adran 151 |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| N. Mills | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |
| V Furniss | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |
| W Marshall | Ymgynghorydd Buddsoddi - Hymans Robertson |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M B Lewis
Aelodau Cyfetholedig(wyr):

5 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

**Cynghorwyr**

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn gweithio i'r cyngor ac yn cyfrannu at y Gronfa Bensiwn - personol

Y Cynghorydd C E Lloyd - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy nhad yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd D G Sullivan - yr agenda yn ei chyfanrwydd – mae fy merch yng nghyfraith yn aelod cyfrannol o'r Cynllun Pensiwn ac rwy'n derbyn Pensiwn Llywodraeth Leol - a weinyddir gan Gynllun Pensiwn Dyfed - personol.

Y Cynghorydd M Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - rwyf i a'm gwraig yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Cofnod 10 - Datganiad Drafft o Gyfrifon 2016/17 - Rwy'n Gynghorydd Cymuned gyda Chyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf - personol.

**Swyddogion**

J Parkhouse - Cofnod 10 – Datganiad Drafft o Gyfrifon 2016/17 - Rwy'n cael fy nghyflogi fel clerc i Gyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf – personol.

6 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 9 Mawrth a 22 Mehefin fel cofnodion cywir.

7 **EITEM FRYS.**

Yn unol â pharagraff 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd y Cadeirydd ei farn y dylid ystyried yr adroddiad am opsiynau i gwblhau'r broses o gysoni'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig yn y cyfarfod fel mater brys.

8 **YSTYRIED OPSIYNAU I GWBLHAU'R BROSES O GYSONI'R ISAFSWM PENSIWN GWARANTEDIG O FEWN YR AMSERLENNI SYDD AR GAEL.**

Rheswm dros y cynnig brys: Rhoi gwybod i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn fod proses ar waith i ystyried yr opsiynau sydd ar gael i gwblhau'r broses o gysoni'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig o fewn yr amserlenni angenrheidiol.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad brys 'er gwybodaeth' fel a amlinellwyd uchod. Rhoddodd yr wybodaeth gefndir i'r broses o gysoni'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig a thynnodd sylw at yr amserlenni a'r risgiau cysylltiedig posib.

Trafododd y pwyllgor yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad, gan nodi'r cynnydd a wnaed.

9 **PRESENOLDEB AELODAU'R BWRDD PENSIWN YM MHWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN.**

Cyflwynodd y Prif Gyfreithiwr adroddiad 'er gwybodaeth' a roddodd wybod i aelodau'r pwyllgor am drefniadau presenoldeb aelodau'r Bwrdd Pensiwn ym Mhwyllgor y Gronfa Bensiwn yn y dyfodol.

Amlinellwyd na allai aelodau'r Bwrdd Pensiwn fynd i gyfarfodydd llawn Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ar hyn o bryd a bod rhaid iddynt adael pan drafodir eitemau a eithrir, yn debyg i aelodau'r cyhoedd.

Derbyniodd Cadeirydd blaenorol Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, y Cynghorydd R C Stewart, lythyr oddi wrth Gadeirydd y Bwrdd Pensiynau, Alan Lockyer, a ofynnodd yn

ffurfiol am bresenoldeb cynrychiolydd y Bwrdd Pensiwn ym Mhwyllgor y Gronfa Bensiwn ar gyfer yr agenda lawn, gan gynnwys eitemau a eithrir. Datganodd y llythyr mai'r diben oedd cydymffurfio â dyletswyddau statudol a byddai'r cynrychiolydd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Pensiwn llawn.

Dangosodd yr ymchwil a ddarparwyd nad oedd 5 pwyllgor pensiwn yn caniatáu i aelodau o fyrddau pensiynau fod yn bresennol mewn cyfarfodydd llawn ac roedd 3 yn caniatáu hynny.

Rhoddwyd cyngor gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, y Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Adnoddau blaenorol mewn ymateb i'r llythyr. Y cyngor oedd y gallai aelodau o'r Bwrdd Pensiwn gael mynediad i'r papurau cyfrinachol ar yr un adeg ag y cânt eu cyhoeddi ar gyfer Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gallai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fynd i gyfarfodydd y pwyllgor ac aros am adroddiadau a eithrir. Fodd bynnag, gall fod achosion eithriadol pan ofynnir iddynt adael a byddai hyn yn cael ei esbonio ar y pryd. Hefyd, byddai'n rhaid i aelodau o'r Bwrdd Pensiwn lofnodi cytundeb cyfrinachedd o ran presenoldeb ym Mhwyllgor y Gronfa Bensiwn ar gyfer eitemau a eithrir a mynediad i adroddiadau a eithrir.

## 10 DATGANIAD DRAFFT O GYFRIFON 2016/17.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol Ddatganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2016/17. Diolchodd i staff Tîm y Trysorlys a Thechnegol am eu gwaith ar lunio'r cyfrifon.

Datganwyd bod cyfrifon Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe'n rhan unigryw ac ar wahân o Ddatganiad o Gyfrifon Dinas a Sir Abertawe'n gyffredinol. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio Datganiad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn 2016/17 yn unol â'i hadroddiad, a fyddai'n cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar ddiwedd yr archwiliad yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Atodwyd Datganiad Drafft o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe yn Atodiad 1.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Datganiad Drafft o Gyfrifon 2016/17.

## 11 PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - DIWEDDARIAD. (ER GWYBODAETH)

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad ‘er gwybodaeth’ a oedd yn rhoi'r diweddaraf i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar gynnydd Cronfa Buddsoddi Cymru Gyfan.

Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn cynnwys yr amserlen ddiweddaraf a'r diweddaraf ar gynnydd a luniwyd gan ymgynghorwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru, Hymans Robertson.

Ychwanegwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd wedi cael ei gyfarfod ffurfiol cyntaf ar 29 Mehefin 2017. Nodwyd cylch gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau. Byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd yn goruchwylio'r broses gaffael i'r

gweithredwr a byddai'r cydbwyllgor ffurfiol yn gwneud yr argymhelliad terfynol i benodi'r ymgeisydd sy'n bodloni'r meini prawf orau.

Roedd Grŵp yr Ymarferwyr Buddsoddi a'r Gweithgor Swyddogion wedi bod yn gweithio mewn ymgynghoriad â Hymans Robertson a'r ymgynghorwyr cyfreithiol penodedig, Burges Salmon, wrth lunio a chwblhau'r broses gaffael a'r ddogfennaeth. Cyhoeddwyd y gwahoddiad olaf i dendro ym mis Mehefin 2017. Bydd y Gweithgor Swyddogion yn gwneud yr argymhelliad i benodi gweithredwr i'r Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd ym mis Medi 2017. Yna byddai pob pwyllgor cronfa bensiwn yn cymeradwyo'r penderfyniad ym mis Medi 2017.

12 **CYNLLUN HYFFORDDI.**

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad er mwyn pennu rhaglen hyfforddiant flynyddol ar gyfer ymddiriedolwyr a swyddogion y Gronfa Bensiwn.

Ychwanegwyd bod angen hyfforddiant i sicrhau y cydymffurfir â Chôd Ymarfer Gwybodaeth Ariannol a Sgiliau Pensiynau Sector Cyhoeddus y CIPFA a gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth y Rheolydd Pensiynau.

Amlinellwyd bod yr hyfforddiant canlynol wedi'i nodi yn 2017/18 fel hyfforddiant priodol ar gyfer aelodau o'r pwyllgor, ynghyd ag unrhyw gyfleoedd hyfforddiant priodol a oedd ar gael yn ystod y flwyddyn, i'w cytuno arnynt â'r Swyddog Adran 151:

1. Gweithdy Credoau Buddsoddi
2. Gweithdy Credoau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu
3. Hanfodion Ymddiriedolwyr Cyflogwyr Llywodraeth Leol, diwrnod 1, 2 a 3
4. Uwchgynhadledd Fuddsoddi'r LGC
5. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr LAPFF
6. Hyfforddiant Ymddiriedolwyr y CIPFA
7. Cyfuno Buddsoddi a'r Fframwaith Rheoleiddiol parthed Cynllun Contractiol Awdurdodedig

**PENDERFYNWYD** cytuno ar yr hyfforddiant a nodwyd uchod.

13 **MIFID II. (ER GWYBODAETH)**

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol a'r Ymgynghorydd Buddsoddi adroddiad 'er gwybodaeth' a roddodd wybod i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn am MIFID II a'i effaith bosib ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn genedlaethol ac yn lleol.

Amlinellwyd yr effaith bosib ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr asesiad angenrheidiol arfaethedig a'r ffordd ymlaen. Rhoddwyd ymateb y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Atodiad 1.

## 14 CÔD TRYLOYWDER COSTAU'R LGPS. (ER GWYBODAETH)

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a roddodd wybod i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn am y côd ymddygiad gwirfoddol newydd ar dryloywder costau yn y diwydiant rheoli cronfeydd.

Atodwyd y Côd Ymddygiad ar gyfer Tryloywder Costau yn Atodiad 1. Cydnabuwyd bod y templed i'w gwblhau wedi'i ddatblygu ar gyfer mandadau ecwiti'n unig ar yr adeg hon ac roedd templedi'r dosbarthiadau asedau eraill yn y broses o gael eu datblygu. Fodd bynnag, bwriadwyd cynnwys y rheolwyr ecwiti penodedig (a rheolwyr yn y dosbarthiadau asedau eraill pan fydd y templedi ar gael) i lofnodi'r côd gwirfoddol. Nodwyd y dylai hyn fod yn amod o unrhyw benodiadau i'r gronfa neu Gronfa Partneriaeth Pensiwn Cymru yn y dyfodol.

## 15 POLISI TORRI AMODAU. (ER GWYBODAETH)

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a roddodd wybod i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn am unrhyw achosion o dramgwyddo'r Gronfa Bensiwn yn unol â'r Polisi Adrodd am Dramgwyddau.

Atodwyd yr Adroddiad am Dramgwyddau yn Atodiad A. Rhoddwyd mwy o wybodaeth am gyfandaliadau ymddeol a thramgwydd un cyflogwr (Grŵp Gwalia) a fethodd gyflwyno data i'r Gronfa Bensiwn erbyn 30 Ebrill er mwyn i'r cyfraniadau a'r taliadau wedi'u cysoni ar ddiwedd y flwyddyn gael eu hychwanegu at gofnodion yr aelodau.

## 16 ADOLYGIAD O ADRODDIADAU RHEOLI MEWNOL. (ER GWYBODAETH)

Cyflwynodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi gwybod i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn am eitemau adroddadwy yn adroddiadau dulliau rheoli mewnol rheolwyr penodedig y gronfa.

Ychwanegwyd bod rheolwyr a cheidwaid asedau'n destun rheoliadau sylweddol yng nghyd-destun y byd, yr UE a'r DU. Roedd rhaid iddynt adrodd am eu systemau rheolau mewnol, a oedd yn destun archwiliad allanol a sylwadau gan gwmnïau archwilio cymwys ac annibynnol. Atodwyd y crynodeb o eithriadau ar gyfer y flwyddyn galendr ddiwethaf yn Atodiad 1 ar gyfer rheolwyr a cheidwad cronfeydd penodedig Dinas a Sir Abertawe.

Nodwyd bod y rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r eithriadau'n briodol, gan eu cydnabod drwy gymryd camau gweithredu adferol priodol.

## 17 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

18 **ADRODDIADAU YMGYNGHORWYR. (ER GWYBODAETH)**

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r diweddariad economaidd a sylwadau ar y farchnad o safbwynt yr Ymgynghorwyr Buddsoddi Annibynnol a benodwyd.

Yn Atodiad 1, roedd adroddiadau'r chwarter a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 gan y ddau Ymgynghorydd Buddsoddi annibynnol, Mr Noel Mills a Mr Valentine Furniss. Yn ogystal, dosbarthodd Mr Furniss adroddiad buddsoddi am y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2017.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i bob ymgynghorydd ac fe'u hatebwyd yn briodol.

Nodwyd cynnwys pob adroddiad gan y pwyllgor a diolchwyd i'r Ymgynghorwyr Annibynnol am eu hadroddiadau.

19 **ADRODDIAD YMGYNGHORYDD BUDDSODDI. (ER GWYBODAETH)**

Cyflwynodd Mr W Marshall, Hymans Robertson, ymgynghorydd buddsoddi penodedig y gronfa, y diweddaraf ar y farchnad fuddsoddi adolygiad o berfformiad y gronfa ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Rhoddwyd adroddiad byr am ail chwarter 2017 i'r pwyllgor hefyd.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i bob ymgynghorydd ac fe'u hatebwyd yn briodol. Nodwyd cynnwys yr adroddiadau gan y pwyllgor a diolchwyd i'r Ymgynghorydd Buddsoddi am yr adroddiad.

20 **CRYNODEB BUDDSODDIADAU. (ER GWYBODAETH)**

Rhoddodd Prif Swyddog y Trysorlys a Thechnegol adroddiad "er gwybodaeth" a gyflwynodd, yn Atodiad 1, grynodebau buddsoddi chwarterol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

21 **CYFLWYNIAD RHEOLWR Y GRONFA:**

Gwnaethpwyd cyflwyniad ar y cyd gan Craig McDonald ac Emily Archer o Harbourvest.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad llafar ac fe'u hatebwyd yn briodol.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i Reolwyr y Gronfa am ddod i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.35 pm

**CADEIRYDD**